# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 09 Tachwedd 2021
am 20.00.yh.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Rowland Jones, Ada Evans, Meic Francis, Dewi Rattray, Meirion Davies, Dylan Edwards, Caredig Jones.**

**ABSENOLDEBAU: Richard Davies, John Davies.**

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Miss Tachwedd gan yr is-gadeirydd Cyng Meic Francis. Dachraeodd y cyfarfod 8.00pm.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf sef Mis Hydref gan y clerc a chynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Rowland Jones & eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

21/022- MATERION YN CODI

1. Nodwyd bydd rhaid gwneud yn sicr for cyfarfodydd y cyngor cymuned yn cymryd lle ar Ddydd Mawrth 1af pob mis o nawr ymlaen; yn ôl i'r patrwm arferol. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn.
2. Mae'r clerc eisio wedi cysylltu gyda chwmni Tarmarc yn gofyn am ddyfynbris ar gyfer llwybr y fynwent. Nid oed unrhyw ymateb wedi eu derbyn eto. Mi neith y clerc cysylltu unwaith eto.
3. Coeden Nadolig y pentref. mae busnesau lleol wedi dangos diddordeb mewn cael coeden mawr i'r gymuned eleni. Mi fydd Keith o siop y pentref delio gyda hyn eleni.

21/023 - LLYTHYRON

1. Llythyr wrth Eglwys Ilar, yn dwyn sylw'r cyngor at gyflwr un o'r beddi yn y fynwent. Mi neith y clerc cysylltu ag A Griffiths i edrych mewn i'r gwaith sydd angen.
2. Hysbysiad ffordd ar gau; C1037 - Lledrod. Dyddiad 16.11.2021 o 8yb tan 5yh, ar gyfer gwaith gwasanaeth BT Openreach.
3. Ebyst Un Llais Cymru gan gynnwys; consultation of qualification of clerks, consultation of UK forestry standard, remote training sessions, webinars about scams.

21/024 - ARIANNOL

1. Cyflog y clerc ar gyfer mis Hydref a Thachwedd. £133.26 y mis. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng. Dylan Edwards Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray
2. Tal ar gyfer y torch Pabi eleni. £25.00 gan gynnwys cyfraniad. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng. Dylan Edwards Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones

21/025 - CYNLLUNIO

Cais:A210889
Ymgeisydd: K & D Barron
Y bwriad: Cais cynllunio am adeilad arall yn Canol Y Bryn, Rhos Y Garth.

Fe benderfynwyd cefnogi y cais yma. Cynnigwyd gan y Cyng.Dylan Edwards ac fe eiliwyd gan y Cyng.Rowland Jones

21/026 - UNRHYW FATER ARALL

1. Ceir yn parcio ar y palmant wrth ymyl tai ar waelod rhyw Cwmaur. Mi fydd y clerc yn siarad gyda'r perchnogion ynglŷn â hyn.
2. Cyflwyr y coed yn Abermad a hefyd Cefnllwynpiod. Mi ofynnwyd i'r clerc cysylltu gyda'r adran priffyrdd unwaith eto ynglŷn â hyn, gan ei fod yn beryg mawr i'r cyhoedd sy'n trafaelu ar y ffordd yma.
3. Cyflwyr y fainc yn barc y pentref. Mae hyn yn rhan o gyfrifoldeb Tai Barcud. Gofynnwyd I'r clerc cysylltu gyda nhw er mwyn codi sylw ar y mater yma.
4. Colofn golau ar bwys y Falcon Inn Llanilar. Unwaith eto, mae aelodau o'r cyhoedd wedi codi consyrn am ddiogelwch yn y tywyllwch yn yr ardal yma. Ofynnwyd I'r clerc edrych i mewn at gysylltu'r golofn yma. Mi fydd angen cysylltu gyda Scottish Power a hefyd bragdy Felin Foel.
5. A oes modd cael mwy o finiau baw cwn ar y Llwybr Ystwyth. Ar hyn o'r bryd, dim ond un sydd wedi ei lleoli yn y station yard. Ofynnwyd I'r clerc cysylltu â'r cyngor sir i weld os oes modd cael un wrth ymyl mynedfa'r llwybr yn Pantmawr ac un arall yn Glanyrafon.
6. Ofynnwyd I'r clerc cysylltu â'r cyngor sir ynglŷn ag ymateb i'r cais defnydd tir y by-pass.

Orffennwyd y cyfarfod am 8.50pm